



Rhestr Wirio Cyn y Gyfres

Lluniwyd y rhestr wirio hon i'ch cynorthwyo i baratoi ar gyfer arholiadau yn eich canolfan. Nid yw'n rhestr gynhwysfawr o dasgau. Gallai Swyddogion Arholiadau ychwanegu tasgau ychwanegol sy'n berthnasol i'w canolfan.

Gweithgaredd	Wedi'i gwblhau?
Archebwyd papurau wedi'u haddasu erbyn dyddiad cau cyhoeddedig y CGC ar gyfer y gyfres berthnasol.	
Gwnaed darpariaeth ar gyfer ymgeiswyr y mae angen trefniadau mynediad arnynt, megis llety priodol, digon o ddarllenwyr cyfrifiadurol, anogwyr, darllenwyr, ysgrifenyddion a phrosesyddion geiriau.	
Mae'r cofrestriadau wedi'u gwneud, eu gwirio ac maent i gyd yn gywir.	
Mae ceisiadau am drefniadau trosglwyddo ymgeiswyr wedi'u prosesu erbyn dyddiad cau cyhoeddedig y CGC ar gyfer y gyfres berthnasol.	
Mae ymgeiswyr wedi cael amserlenni cyfredol a chywir.	
Mae achosion o wrthdaro mewn amserlenni wedi'u nodi a'u datrys.	
Lluniwyd cynlluniau eistedd ar gyfer pob arholiad.	
Mae staff sydd â mynediad cymeradwy at gyfleuster storio diogel y ganolfan, e.e. cabinet diogel neu ddiogelwch, yn hollol ymwybodol o'r protocol ar gyfer cofnodi, trafod a throsglwyddo deunyddiau diogel a chyfrinachol i'r cyfleuster storio diogel.	
Mae'r deunyddiau diogel a dderbyniwyd wedi'u gwirio yn erbyn amserlen neu gofrestrïadau eich canolfan. (os oes unrhyw ddeunyddiau ar goll, neu os ydych wedi derbyn deunyddiau na ddylech eu cael, rhaid i chi gysylltu â'r corff dyfarnu perthnasol ar unwaith.)	

• Mae pecynnau papur cwestiynau wedi'u ffeilio yn nhrefn dyddiad yr amserlen yn eich cyfleuster storio diogel.	
• Mae goruchwylwyr ac aelodau o staff y ganolfan sy'n hwyluso trefniadau mynediad wedi'u hyfforddi'n briodol yn eu dyletswyddau ac maent yn hollol ymwybodol o reoliadau perthnasol y CGC.	
• Mae'r staff sy'n rheoli goruchwyliaeth unrhyw ymgeisydd ag amrywiadau ar yr amserlen wedi'u hyfforddi'n briodol yn eu dyletswyddau ac maent yn hollol ymwybodol o reoliadau 'ICE' a'u cyfrifoldebau.	
• Nodwyd llety priodol i ymgeiswyr dan oruchwyliaeth canolfan rhwng arholiadau.	
• Mae'r holl staff perthnasol wedi darllen fersiwn 2021/22 o gyhoeddiad y CGC <i>Cyfarwyddiadau ar gynnal arholiadau</i> ac yn deall unrhyw ddiweddariadau.	
• Mae gennych gyflenwad digonol o ddeunydd ysgrifennu arholiadau (e.e. llyfrynau ateb generig, papur parhad).	
• Mae ymgeiswyr wedi'u hysbysu o'r rheoliadau sy'n gwahardd cyflwyno deunyddiau anawdurdodedig, ffonau symudol/dyfeisiau electronig ac oriorau i'r ystafell arholiad ac o'r ôl-ffeithiau posibl o fethu â chydymffurfio â'r rhain. Rhaid bod yr ymgeiswyr wedi cael <i>Gwybodaeth i ymgeiswyr ar gyfer profion ar-sgrin, cyfryngau cymdeithasol a/neu arholiadau ysgrifenedig.</i>	
•	
•	
•	
•	